

Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022

303 - Beirniadaeth Cyfansoddi Gosodiad dan 25 oed

Beirniad: Mair Carrington Roberts

Cyfansoddi gosodiad i unrhyw unawd yn Rhestr Testunau Eisteddfod yr Urdd 2020, Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2020 neu Gwyl Cerdd Dant 2020.

Derbyniwyd gosodiadau gan dri ymgeisydd, ond yn anffodus nid oedd pob un yn ateb gofynion y gystadleuaeth. Sylwer mai gosodiad i unrhyw unawd o fewn y testunau yw'r dasg, ac felly rhaid oedd dileu y gosodiadau a ddewiswyd o gystadlaethau aml leisiol.

Hefyd mae Rheol 9 yn nodi na chaniateir i gystadleuwyr ymgeisio fwy nag un waith ym mhob cystadleuaeth o fewn yr adran.

Anfonodd Gronw (22116243) bedwar cais i'r gystadleuaeth, a'r gosodiad o 'Gwynt yr Hwyr' (Tudur Dylan Jones) ar y gainc 'Nest' (Sioned Williams) ddaeth i'r brig. Roedd naws drist y gân serch hon yn adleisio'n hyfryd yn y cyfalawon. Ond collwyd cyfle i bwyntio a lliwio ambell air allweddol, a byddai mwy o feistrolaeth ar y dechneg o ysgrifennu gwrthbwynt yn gwella'r arddull ac yn rhoi mwy o gyfle i gyfleu'r geiriau'n llawn.

'Dyn y Tywydd' (Leah Owen) ar y gainc 'Glan Elwy' (Nia Elain) oedd dewis Sophie (22116262). Dyma osodiad oedd yn llifo'n naturiol a rhwydd ac yn dehongli'r geiriau'n gerddorol gan hybu'r mynegiant. Mae'r cyfan wedi ei gynllunio'n dda ac, er fod yma ambell frycheuyn bach, dyma osodiad clos gyda thyfiant sicr i'r uchafbwynt.

Diolch i'r cystadleuwyr, ac fe gaiff Sophie y wobwr gyntaf a Gronw yr ail – gan nodi mai Gwobr Goffa Haf Morris yw hon yn rhoddedig gan y Gymdeithas Cerdd Dant i annog a meithrin y grefft. Trueni felly nad oedd mwy o gystadlu er mwyn hyrwyddo'r gelfyddyd.

1af - Sophie Jones

2il - Gronw Ifan